# Effaith ein gwaith: Hydref 2024

Mae'r hydref yn dymor o newid amlwg iawn: carpedi o ddail ar balmentydd; boreau oer; a nosweithiau serennog.

Dyma hefyd adeg y flwyddyn y byddaf yn cyhoeddi fy Adroddiad Blynyddol, sydd nid yn unig yn manylu ar lwyddiannau fy nhîm ymroddedig dros y flwyddyn ddiwethaf ond hefyd yn cyflwyno y newidiadau penodol sydd eu hangen, yn fy marn i, i wneud bywyd yn well i blant yng Nghymru.



Mae fy adroddiad yn gwneud 22 o argymhellion eleni i Lywodraeth Cymru, sy'n cwmpasu ystod o feysydd polisi. Gallwch ddarllen mwy amdanynt ar dudalen 8.

Fel y newidiadau tymhorol o'n cwmpas, mae angen i'r newidiadau hyn i blant fod yr un mor gryf ac yr un mor weladwy.

## 1 Yma i bob plentyn



Mae ein tîm ymgysylltu yn rhoi lleisiau plant ar ganol ein gwaith, gan glywed barn a phrofiadau o bob cornel o Gymru.


Dros y tri mis diwethaf rydym wedi ymgysylltu â thua 400 o ysgolion a grwpiau, wedi gweithio gydag oedolion sy'n cefnogi plant, ac wedi gwrando ar farn miloedd o blant trwy ein holiaduron Mater y Mis.

# Mater y Mis – ein pecyn trafod a holiadur misol i ysgolion a chlybiau

Dros y tri mis diwethaf rydyn ni wedi clywed barn plant ar:

- gynigion Llywodraeth Cymru i wahardd diodydd egni i blant dan 16 oed, a newidiadau i reolau ynghylch lleoliad bwyd mewn siopau. Rydyn ni wedi defnyddio’r atebion i ymateb i ymgyngoriad y Llywodraeth ar y cynigion
- argaeledd gweithgareddau yn eu hardal leol dros wyliau’r haf.
- defnydd ffônau symudol yn yr ysgol

Gallwch ddarllen adroddiadau ar ein holiaduron Mater y Mis ar ein gwefan.



## Diodydd ynni a hyrwyddo bwydydd

- **Roedd 62% yn meddwl na ddylai diodydd egni gael eu gwerthu i blant dan 16 oed**
- **Roedd y rhesymau cyffredin o blaid gwaharddiad yn cynnwys risgiau iechyd yfed diodydd egni, lefelau siwgr a chaffein uchel cynhyrchion, a’r effaith y gall diodydd egni eu cael ar gwsg**
- **Roedd 44% o blant yn meddwl bod gwahardd ail-lenwi diodydd *fizzy* am ddim yn syniad drwg, tra bod 31% yn cefnogi gwaharddiad. Roedd llawer o blant a oedd yn gwrthwynebu gwaharddiad ar ail-lenwi yn poeni am gost bwyta allan ac yn gweld gwaharddiad fel cost ychwanegol**

## Gweithgareddau haf

- Dywedodd plant mai treulio amser gyda'u teuluoedd (66%), bod allan gyda ffrindiau (63%), a gwneud chwaraeon a nofio (62%) oedd rhai o'r prif bethau yr oeddent yn mwynhau eu gwneud y tu allan i'r ysgol.
- Roedd y tywydd (50%), cyfyngiadau ariannol (44%), rhieni ddim yn eu caniatáu (35%), a phellter gweithgareddau o'r cartref (33%) yn rhwystrau cyffredin i blant
- Roedd 62% o blant yn meddwl bod digon o bethau i'w gwneud yn eu hardal leol
- Roedd plant eisiau mwy o barciau chwarae a mannau chwarae, cyfleusterau chwaraeon, a chanolfannau hamdden a phyllau nofio yn eu hardaloedd lleol

## Ffônau symudol mewn ysgolion

- Yn ystod mis Hydref, rhannodd dros 3000 o blant a phobl ifanc eu barn â ni ar ddefnydd ffônau symydol mewn ysgolion.
- Byddwn yn dadansoddi'r data dros yr wythnosau nesaf ac yn cyhoeddi'r canlyniadau ar ein gwefan.

# Gwireddwr hawliau




Mae ein tîm Cyngor yn helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru i gael mynediad at eu hawliau dynol.

Dros y chwarter diwethaf, mae plant, rhieni, gweithwyr proffesiynol ac aelodau etholedig wedi cysylltu â ni ar amrywiaeth o faterion hawliau plant.

Mae'r amrywiaeth eang yma o achosion yn cynnwys:


- materion diogelu
- cyngor ar leoliadau addysg arbenigol
- cludiant ysgol
- gwaharddiadau
- cyngor ar gwynion yn cynnwys i wasanaethau cymdeithasol ac addysg
- Cynlluniau datblygu unigol (CDU)

I gysylltu â'n tîm ebostiwch cyngor@complantcymru.org.uk neu ffoniwch 01792 765600


# Dros y chwarter diwethaf, mae ein tîm Cyngor wedi:




Cefnogi plant **ym mhob awdurdod lleol** yng Nghymru



**Wedi delio gyda 267 achos unigol, sef cynnydd o 47% ar y chwarter blaenorol**




**Roedd 31% o bob achos yn gysylltiedig ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

# Helpu sefydliadau i ddatblygu eu gwaith hawliau plant




**Digwyddiad Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru**

Ymunodd dros 70 o weithwyr proffesiynol o amrywiaeth o sectorau gan gynnwys iechyd, cyfiawnder ieuenctid, yr heddlu, awdurdodau lleol a'r trydydd sector â ni yn ein digwyddiad yn Llanelwy ar Hydref 9fed i gael eu hysbrydoli gan hawliau plant, ac i ddysgu sut y gall hawliau plant helpu nhw yn eu gwaith.

Clywsom arfer rhagorol wrth gefnogi hawliau plant gan amrywiaeth o arweinwyr gweithdai, gan gynnwys Prifysgol y Plant, Heddlu Gogledd Cymru, gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn, Senedd Ieuenctid Wrecsam, a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Ac mae'n rhaid i ni sôn yn arbennig am waith disgyblion Ysgol Uwchradd Eirias - cyflwyniad pwerus a theimladwy am stigma yr oedden nhw wedi'i gyflwyno'n flaenorol yng Ngŵyl Llesiant Wrecsam.



**Diwrnod hyfforddi gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda**

Yn dilyn digwyddiad rhwydwaith hawliau plant hynod lwyddiannus ym mis Mawrth, cafon ni gais i gynnal gweithdy hyfforddi a rhannu gwybodaeth tebyg i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda.

Daeth dros 50 o bobl ag amrywiaeth o arbenigedd ar draws y bwrdd iechyd, gan gynnwys arweinwyr diogelu, nyrsys ysgol, nyrsys cymunedol, swyddogion ymgysylltu ac arweinwyr iechyd draw i ddysgu mwy am hawliau plant a sut y gall helpu i lywio eu gwaith. Adroddodd ein tîm cyfranogiad stori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: ei hanes, ei ddiben, a'i bwysigrwydd. Roedd cyfle i fynychwyr i weld sut y maen nhw'n cefnogi hawliau plant yn barod ac i gael syniadau ar gyfer gwneud mwy.

Diolch am yr adborth hyfryd hwn!

"Roedd y tîm yn wych ac yn ennyn diddordeb y tîm gan sicrhau cyfranogiad llawn. Roedd yn dda clywed beth mae eraill yn ei wneud yn y gofod cywir i blant."



# Heriwr

**Mae ein tîm polisi yn herio a dal yr rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif ar y materion allweddol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.**

## Ein hadroddiad blynyddol

**Mae ein hadroddiad blynyddol diweddaraf yn manylu ar waith ein tîm yn ystod 2023/24, ac yn gwneud argymhellion yn y meysydd a ganlyn. I ddarllen yr argymhellion llawn, agorwch ein hadroddiad blynyddol ar ein gwefan**

### Gofal cymdeithasol i blant – rhianta corfforaethol

- Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru gynyddu ymwybyddiaeth o'r siarter rhianta corfforaethol a'r nifer sy'n ymrwymo iddi, gan gynnwys gosod targedau ar gyfer ymrwymo iddi

### Adolygiadau Diogelu Unedig Unigol (SUSRs)

- Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut bydd y gwersi o bob adolygiad diogelu yn cael eu rhannu ar draws asiantaethau yng Nghymru, a rôl pwy fydd gwneud hynny'n rhagweithiol. Does dim pwynt cynnal adolygiadau os na chaiff gwersi eu rhoi ar waith yn ymarferol, yn ogystal â'u nodi.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

- Mae angen i Lywodraeth Cymru gynhyrchu canllawiau technegol i awdurdodau lleol ar roi Deddf a Chôd ADY ar waith.
- Mae angen i'r cyllid ar gyfer darpariaeth ADY fod yn glir ac yn gynaliadwy, er mwyn i chi fedru olrhain gwariant a sicrhau ei fod yn cyrraedd y plant sydd angen y ddarpariaeth..

**Bwyd mewn ysgolion**

- Rhaid i adolygiad Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau Safonau Maeth mewn Ysgolion adlewyrchu barn a phrofiad ystod amrywiol o blant.
- Er bod prydau ysgol ar gael am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd, nid yw plant y mae eu teuluoedd 'heb fynediad at gyllid cyhoeddus' (NRPF) yn gymwys yn awtomatig. Yn Lloegr mae pob teulu NRPF yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Rydyn ni eisiau i Lyw odraeth Cymru newid y canllawiau i sicrhau bod holl blant teuluoedd NRPF yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

**Mynediad ceiswyr lloches a ffoaduriaid at wasanaethau**

- Mae trafnidiaeth gyhoeddus wedi cael ei hamlygu fel rhwystr a mater allweddol i blant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches, er mwyn iddyn nhw fedru cael mynediad i'w hawliau
- Rydyn ni'n siomedig bod cynllun tocyn Croeso Llywodraeth Cymru wedi dod i ben ym mis Ebrill 2024, heb ddarpariaeth na chynnig yn ei le; mae angen rhoi sylw i hyn.


**Hiliaeth a chydlyniant cymunedol**

- Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru adolygu eu strategaeth cydlyniant cymunedol, a sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed fel rhan o'r gwaith yma..
- Roedd ein hadroddiad Cymerwch e o Ddifri, yn galw am adroddiadau cyson am ddigwyddiadau hiliol mewn ysgolion. Mae angen i Lywodraeth Cymru gyflawni eu haddewid i sefydlu'r mecanweithiau angenrheidiol er mwyn coladu data a chynhyrchu fformat adrodd cyson ar gyfer digwyddiadau hiliol ac aflonyddu mewn ysgolion a cholegau.

**Cydraddoldeb i Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno sefydlu fforwm cymunedol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ond ni welwyd cynnydd o ran hynny eto.
- Mae pryderon cyffredinol ynghylch ffigurau presenoldeb yn yr ysgol, ond mae presenoldeb disgyblion sy'n Sipsiwn wedi gostwng 12.4 pwynt canran i 70.6%, a phresenoldeb disgyblion sy'n Deithwyr wedi gostwng 21.9 pwynt canran i 63.3%.

**Iechyd meddwl a llesiant**



- Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

**Rhaglen plentyn iach Cymru**




- Yn 2022, ni ddigwyddodd dros 62,000 o'r cysylltiadau a ddylai fod wedi digwydd gydag ymwelwyr iechyd.
- Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd Rhaglen bresennol Plentyn Iach Cymru yn ystod y tymor Senedd hwn. Dylai'r adolygiad nodi disgwyliadau clir o ran amlder cyswllt/nifer yr ymweliadau.

**Fêpio**



- Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru gefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o'r canllawiau newydd i ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru sicrhau bod mynediad at ymyriadau fel Therapi Amnewid Nicotin ar gael yn gyson ar draws Cymru, a bod plant a gwasanaethau cymorth yn ymwybodol o'r ymyriadau hyn..

**Trafnidiaeth Cyhoeddus**



- Rydyn ni'n parhau i godi'r alwad am drafnidiaeth gyhoeddus ddi -dâl ar bob cyfle gyda'r gweinidogion perthnasol. Ar draws ein hymweliadau ym mhob rhan o Gymru, mae costau ac argaeledd trafnidiaeth wedi parhau i godi fel pryder allweddol a rhwystr sy'n atal plant rhag derbyn eu hawliau.



4

# Goleuo'r Gwir


**Rydyn ni'n gweithio'n galed i oleuo profiadau plant a phobl ifanc, ac i'w defnyddio i greu newid.**

## Arddangosfa gyda phlant â phrofiad o ofal

Dyma enghraifft o ddyfyniad gan berson ifanc sydd â phrofiad o ofal a fydd yn rhan o'n harddangosfa yn y Senedd ar 12 Tachwedd.

Mae'n gyfle i gymryd barn a phrofiadau plant sydd â phrofiad o ofal yn uniongyrchol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac i bwysleisio pwysigrwydd ymrwymiad eang i'r siarter rhianta corfforaethol.

Mae'r arddangodfa yn ganlyniad o fisoedd o waith ymgysylltu parhaus gyda grŵp o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae ein tîm wedi gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i ddod i'w hadnabod ac i allu eu helpu i adrodd eu straeon.



# Diolch am ddarllen!
# Byddwn ni'n cyhoeddi ein papur nesaf yn y gaeaf.

Yn y cyfamser, cofrestrwch i'n cylchlythyr misol

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


post@complantcymru.org.uk
01792 765600

Comisiynydd Plant Cymru
Ty Llewellyn
Parc Busnes Glan Yr Harbwr
Heol Yr Harbwr
Port Talbot
SA13 1SB